# GLYN IFANS yn cofio cysur

# Dyddiau'r digofaint



Rhif 1

COFION CYMRU

AT EI PHLANT AR WASGAR

Ebrill, 1941

*Golygyddion* :—CYNAN, PENMAEN, MENAI BRIDGE. TOM PARRY, PENIARTH, BANGOR.
*Pwyllgor* :—
Y PRIFATHRO J. MORGAN JONES; DR. R. T. JENKINS; D. R. HUGHES, A'R GOLYGYDDION.

Ond y mae i Gymru enaid, ei henaid ei hun. A gall golli hwnnw. Gall addysg flodeuo, gall crefydd gryfhau, gall rhyddid ennill y dydd, gall y tlawd godi o'r llwch ac ymgryfhau, gall y goludog fod yn gadarn ac yn frigog fel y llawryf gwyrdd, tra enaid y genedl yn llesgau a gwywo. Gall y genedl ymgolli yn yr ymerodraeth, a bod yn rhan farw yn lle bod yn rhan fyw, fel na chlywir ei llais mwy. A phe digwyddai'r trychineb hwnnw, byddai Cymru heb enaid a'r byd yn dlotach. Pan ddaw ymdrech newydd dros ryddid a chrefydd, nid Cymru a godai'r faner; byddai ei llais hi yn fud.

O. M. EDWARDS: *Er Mwyn Cymru*.

CENADWRI ARBENNIG.

MAE'n sicr y bydd yn llawenydd gennych chwi blant ymru a wasgarwyd oddi cartref gan ofynion y Rhyfel, derbyn yr arwydd hwn fod eich mamwlad yn meddwl lawer iawn amdanoch y dyddiau blinderus hyn, ac yn benderfynol o gadw'r tân Cymraeg gloyw ynghyn yn ei ardaloedd ar gyfer dydd mawr eich croesawu adref eto.

Diau y dwg y cylchgrawn bychan hwn yn yr hen iaith diddanwch i leoedd digon rhyfedd, a rhai ohonoch bellach fallai heb gyfle i glywed gair o Gymraeg.

Diolchwn i'r Gynhadledd Genedlaethol er Diogelu Diwylliant Cymru am ddyfeisio'r ddolen fisol ymarferol on rhyngoch chwi a ninnau, a charem trwy'r rhifyn yntaf hwn anfon atoch, pa le bynnag yr ydych heddiw, ofion cynhesaf Cymru.

Yr eiddoch,

C. A. CAMBRENSIS (*Dr. C. A. Green, Archesgob Cymru*)
W. CRWYS WILLIAMS (*Archdderwydd Cymru*).
G. HARTWELL JONES (*Cadeirydd Cyngor y Cymmrodorion.*)
J. MORGAN JONES (*Llywydd Undeb yr Annibynwyr*)
W. RHYS WATKIN (*Llywydd Undeb y Bedyddwyr*).
EDWARD DAVIES (*Llywydd Cymanfa'r Eglwys Fethodistaidd*).
THOMAS WILLIAMS (*Llywydd Cymanfa Gyffredinol Presbyteriaid Cymru*).
MIHANGEL MCGRATH (*Archesgob Caerdydd*).
WILLIAM GEORGE (*Llywydd Undeb y Cymdeithasau Cymraeg*).
W. J. GRUFFYDD (*Llywydd y Gynhadledd er Diogelu Diwylliant Cymru*).
J. M. HOWELL (*Llywydd Urdd Gobaith Cymru*).
IFOR L. EVANS (*Prifathro Coleg y Brifysgol, Aberystwyth*).
D. EMRYS EVANS (*Prifathro Coleg y Gogledd, Bangor*).
J. F. REES (*Prifathro Coleg Deheudir Cymru, Caerdydd*).
C. A. EDWARDS (*Prifathro Coleg y Brifysgol, Abertawe*).
WYN P. WHELDON (*Ysgrifennydd Adran Gymreig y Bwrdd Addysg*).

GAIR GAN Y GOLYGYDDION.

I chwi, fechgyn Cymru sydd oddi cartref, y bwriedir y cyhoeddiad bychan hwn. Credwn y bydd yn dda gan y rhan fwyaf ohonoch gael ychydig newyddion am Gymru bob mis, a darllen rhywfaint o Gymraeg. Y mae'n ddyddiau blin ar genhedloedd y ddaear, yn arbennig ar y cenhedloedd bychain, ac er bod ffawd Cymru yn well nag eiddo rhai cenhedloedd bychain eraill, y mae dygn beryglon yn bygwth ei bywyd cenedlaethol hithau. Nid y lleiaf o'r rheini yw eich symud chwi, bobl ieuainc egniol, o'r cylchoedd lle buoch yn ddefnyddiol gynt, a thorri rhyngoch a'r cefndir o ddiwylliant y magwyd chwi arno.

Yn y cylchgrawn hwn gwneir ymdrech (un fechan mae'n wir), i gadw rhyw gysylltiad rhyngoch chwi a bywyd Cymru. Ceisiwn gael stori newydd i'w chyhoeddi bob mis; argreffir detholion o lenyddiaeth Gymraeg; sonnir am wŷr amlwg Cymru yn y gorffennol, gwŷr y mae eu bywydau yn ysbrydiaeth i ni yn y cyfnod dyrys hwn; trefnir ambell gystadleuaeth; rhoir newyddion am Gymru.

Carem bwysleisio mai da iawn fydd gennym gyhoeddi cyfraniadau gan aelodau o'r llynges, y fyddin neu'r llu awyr, a da hefyd fydd derbyn llythyrau yn awgrymu gwelliannau. Yn wir croesewir gohebiaeth oddi wrth unrhyw un sydd wedi gadael gwaith a chynefin, ac sy'n gweled rhywfaint o werth yn y cylchgrawn hwn.

Gall pob Cymro a Chymraes a wasgarwyd o'u cartrefi i'r lluoedd arfog, neu oherwydd gofynion arbennig gwaith rhyfel ar fôr neu ar dir, sicrhau "Cofion Cymru" yn rhad ac am ddim bob mis. Cyfeirier ceisiadau oddi wrthynt yn uniongyrchol, neu oddi wrth eglwysi, caplaniaid, etc., ar eu rhan at y Cyhoeddwr :—

MR. D. R. HUGHES,
Y BWTHYN,
MIN-Y-DON,
HEN GOLWYN,
DENBIGHSHIRE

MAE GEN i gyfrol nad oes un arall yn y byd, dybiwn i, yn union yr un fath â hi. Casgliad cyflawn yw'r gyfrol o bob rhifyn o'r papur newydd bychan a gyhoeddid ar gyfer Cymry yn y Lluoedd Arfog adeg yr Ail Ryfel Byd.

Cyhoeddwyd Rhif 1 yn Ebrill 1941 (cyhoeddwyd y Rhyfel ym Medi 1939) a daeth Rhifyn 62, sef yr olaf, ym Mehefin 1946, gryn naw mis ar ôl Hiroshima a therfyn y Rhyfel. Mae'n briodol imi sôn am y cyhoeddiad hwn ar adeg cyhoeddi cyfrolau sylweddol yn ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf — cenhedlaeth Hedd Wyn, David Ellis, Wilfred Owen a Siegfried Sassoon.

*Cofion Cymru* oedd ein papur bro ni a ddosberthid gan deuluoedd, offeiriaid a gweinidogion i'r meibion a oedd ymhell o dre'. Cedwais y cyfan bron a bu cyfeillion yn garedig yn helpu i lanw'r bylchau. Yr is-deitl oedd '. . . *at ei phlant ar wasgar*'.

Trwy gymorth hwn fe'n cadwyd i ddarllen Cymraeg mewn môr o Saesneg tafodieithol a swyddogol ac ieithoedd mwy dieithr ar brydiau. Y golygyddion cyntaf oedd Cynan a Tom Parry ac yr oedd pwyllgor o wŷr amlwg byd llên a chrefydd yn gefn iddynt.

* * * *

YN Y dyddiau hyn, 1991, bu cryn siarad am gadw unedau milwrol yn gyfan, yn arbennig yn Lloegr a'r Alban, er bod pawb yn cytuno mai da o beth yw cwtogi ar niferoedd y Lluoedd Arfog. Dyna beth yw cyfyng gyngor! I filoedd mae cadw'r hunaniaeth frodorol yn y catrodau yn ymchwydd personol iddynt pan welant enwau'r hen frwydrau ar eu baneri.

Bu galw am Uned Gymreig yn y Rhyfel Byd Cyntaf ac yn llyfr Dr R. R. Williams, *Breuddwyd Cymro mewn Dillad Benthyg*, o dan y teitl, 'Y Fyddin Gymreig', mae rhestr gweddol hir o'r rhai '. . . sydd wedi ymuno â'r R.A.M.C.'

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd cofiaf am gais a wnaed am uned Gymreig a Chymraeg yn yr Awyrlu, rhyw sgwadron neu ddwy efallai, ond ddaeth dim byd ohono. Go brin y gellid cadw effeithiolrwydd uned gyfyng fel honno yn wyneb colledion mawr a bach.

Pan oeddwn i ar sgwadron awyrennau Beaufort ym Mhenrhyn Cernyw yn Nhachwedd 1941 (union hanner canrif yn ôl) collasom dri phennaeth mewn pythefnos uwchben Brest a Finisterre; collwyd y criwiau hefyd.

Wrth fynd heibio mae'n werth nodi fod dwy sgwadron o leiaf yn yr Awyrlu ag arfbeisiau â Chymraeg arnynt — Sgwadron 610, '*Yn y nwyfre yn hofran*'; a 614, '*Codaf i geisio*'.

Lle bynnag yr ymgasglai'r Cymry, o Wlad yr Iâ hyd at Calcutta a Colombo sefydlid Cymdeithasau Cymraeg ac o'r rhai hynny daeth cyhoeddiadau fel *Seren y Dwyrain* (T. Elwyn Griffiths) o Gymdeithas Gymraeg Cairo.

* * * *

WRTH edrych drwy'r rhifynnau o fis i fis, yn hiraethus braidd, rwy'n synnu gymaint o weithgarwch llenyddol a geid yn y Lluoedd ledled y byd. Cofiwn fod dalgylch y *Cofion*, fel plwy' John Wesley, yn ymestyn dros fyd cyfan, ym mhob man lle'r oedd Cymry y gellid cyfathrebu â nhw. Yr oedd niferoedd mewn caethiwed gwersyll yn nwylo'r gelyn, yn yr Almaen a'r Eidal, ac yn fuan ar ôl Rhagfyr 7, 1941, yn nwylo'r Siapaneaid.

Dyna gamp oedd llanw colofn newyddion y byddai Cymry o bob pen i'r wlad yn ymddiddori ynddynt. Fel yr âi'r rhyfel yn ei flaen ceid hanes y bechgyn o lawer gwlad — hanes colli rhai a hanes achub eraill. Ceid hanes llyfrau Cymraeg a dyna lawenydd i Gymry alltud oedd cael colofn E. Morgan Humphreys yn enwi llyfrau 1944, llyfrau fel *Atgofion*, J. Lloyd Williams; *Amser i Ryfel*, Tom Hughes Jones; *O'r Pedwar Gwynt*, T. H. Parry-Williams; ac *Elfen Ladin*, Henry Lewis, a llawer o lyfrau eraill a brynid gan aelodau'r Clwb Llyfrau Cymraeg.

Llawenydd mwy i mi pan ddychwelais o'r Dwyrain Pell yn niwedd 1945 oedd darganfod fod fy rhieni wedi dal i berthyn i'r Clwb ac erbyn heddiw mae gen i set sy'n weddol gyflawn.

Cyfrannai llenorion amlycaf Cymru yn rheolaidd i'r papur hwn a chafodd rhai ohonom a fu'n cystadlu yn Eisteddfod y Cofion feirniadaeth ar y cynnyrch gan R. W. Parry, J. O. Williams, Tom Parry, Cynan, Gwenallt, R. T. Jenkins, ac eraill.

Dyma bapur a oedd yn asio'r Cymry; byddem yn cyfnewid rhifynnau fel y byddem yn cyfnewid papurau fel *Y Cymro*, *Y Faner* a'r papurau enwadol. Dysgodd y *Cofion* inni sut oedd cael llawer mewn ychydig. Ni fedrai'r Saeson gredu ein bod yn deall cynnwys y papurau Cymraeg a chaent ateb mor ddwl â'u cwestiwn nhw.

* * * *

YN Y blynyddoedd cynnar argreffid y papur gan Evan Thomas, Bangor, dros Undeb Cymru Fydd gan Dr. D. R. Hughes, Hen Golwyn, ond yn 1945 dechreuodd Hugh Evans, Lerpwl, ei argraffu a hynny a fu hyd y diwedd.

Yn ychwanegol at hyn cyhoeddwyd llyfrynnau bychain, *Llyfr Anrheg* — pump i gyd. Dyma'u teitlau: Rhif 1, Gaeaf 1943, 'Blodeugerdd Fechan'; Rhif 2, ar goll; Rhif 3, Gwanwyn 1944, 'Emynau'n Gwlad'; Rhif 4, 'Calendr y Cymro'; Rhif 5, 'Storïau'. Yn Hydref 1946 cyhoeddwyd llyfr *Y Ddolen* — cyfrol ddiddorol a gwerthfawr i ddwyn gweithgareddau'r *Cofion* i derfyn anrhydeddus. Tybed a oes gan rywun gopi o Rhif 2 y mae'n barod i ymadael ag ef?

Afraid ceisio dyfynnu o'r *Cofion* ond mae troi'r tudalennau yn agor y fflodiart a chaf ail-fyw fy noe a'm hechdoe. Dyna Rhif 5, er enghraifft, yn wael ei wedd — y papur yn frau, yn frown — ôl chwys wedi treiddio drwy'r crys i'r boced frest.

Arbedwyd un arall gan y *dhobi wallah* — y brodor a ddeuai heibio i fynd â'm dillad i'w golchi, fel y gwnâi sipsi Crwys, yn nŵr yr afon. Gwelodd fy mod wedi anghofio tynnu rhyw bapuryn o'm poced. Daeth ag ef yn ôl i mi gan gredu, yn berffaith gywir, ei fod o bwys. Bendith arno — yr oedd ei dâl am y siwrne honno yn fwy na'r arfer!

* * * *

NI FWRIEDAIS fod yn hiraethus atgofus. Maddeuwch imi. Lawer blwyddyn yn ôl trosglwyddais wybodeth am Gymdeithas Gymraeg Lanca i'r Llyfrgell Genedlaethol a rhai copïau o *Seren y Dwyrain* hefyd. Gwell hynny na cholli'r deunydd wrth glirio droriau a symud tŷ.

Ar bob rhifyn, o'r cyntaf i'r olaf, ar y dudalen flaen yr oedd dau lun oddeutu'r teitl, y naill o Eglwys Gadeiriol Tyddewi a'r llall o'r Wyddfa a'i chriw. Dewiswyd y lluniau hyn gan y pwyllgor ac fe'u lluniwyd gan Mitford Davies. Gofynnodd rhywun beth oedd arwyddocâd y rhain a dyma ddyfynnu'r ateb: '. . . arwyddluniau o ddau binacl y Diwylliant Cymreig, ei Grefydd a'i Gryfder, ei Deml a'i Darian, ei Ddiwinyddiaeth a'i Ddaearyddiaeth'.

I'm cenhedleth i, a fu ar chwâl, mawr yw ein dyled i'r cymwynaswyr a ofalodd fod y llin yn dal i fygu pan oedd pethau'n dywyll arnom.

## YN EISIAU

The Dictionary of Welsh Biography down to 1950. *Llundain, Cymdeithas y Cymmrodorion, 1959.* **Peter Attwater, 121 Shirley Drive, Hove, Sussex BN3 6UJ. Ffôn (0273) 505863.**

*J. Challinor:* The History of British Geology: a bibliographical guide. *Newton Abbot, David & Charles, 1971. R. T. Gunther:* Early Science in Oxford XIV: The Life and Letters of Edward Lhuwyd. *Rhydychen, 1945.* **Dyfed Elis-Gruffydd, Cwm Gorllwyn, Boncath, Dyfed.**